

Llanelwy

Glan yr afon, lonydd cefn gwlad, golygfeydd a dinas fechan hanesyddol

Pellter: 4.8km / 3 milltir

Amser: 1.5 - 2 awr

Cychwyn: Maes parcio'r Llain Fowlio wrth yr afon (£)

Cyf. Grid: SJ036743, Map OS Explorer 264

Graddfa: Hawdd, llwybrau glan yr afon a lonydd

Cyfleusterau: yr holl gyfleusterau yn Llanelwy, www.stasaph.co.uk

Cofiwch ymweld â dinas Llanelwy ei hunan, y gadeirlan fawreddog, y siopau a'r lleoedd bwyd rhagorol.

Riverside, country lanes, views and historic small city

Distance: 4.8km / 3 miles

Time: 1.5 - 2hrs


Start: Bowling Green car park by river (£)

Grid ref: SJ036743, Explorer Map 264

Grade: Easy, riverside path and lanes

Facilities: All facilities in St Asaph, www.stasaph.co.uk

Be sure to take time to explore St Asaph itself, with its impressive cathedral, shops and many lovely places for refreshments.



Y Daith Gerdded

1. O'r maes parcio wrth y llain bowlio ewch ar y llwybr tarmac gan gadw'r lle chwarae ar y llaw chwith. Ar ôl 100m ewch tua'r chwith ac ymlaen tua'r bont cerddwyr fawr dros yr Afon Elwy.

2. Croeswch y bont a throi i'r dde ar hyd glan yr afon. Ewch o dan yr A55 ac yn syth ymlaen gan adael y llwybr tarmac a dal ymlaen ar hyd glan yr afon i'r giât ac i'r lôn. Croeswch y lôn a'r giât arall yna ymlaen ar hyd glan yr afon. Ar ôl tua 400m ewch drwy giât arall a pharhau i ddilyn glan yr afon.

Edrychwch am dŵr main Eglwys Santes Margaret, Bodelwyddan ar y chwith. Adeiladwyd o garreg galch ac mae'r gwyn llachar yn nodwedd amlwg a

welir o bell. Enw mwy cyffredin arni yw 'yr Eglwys Farmor' am fod 13 o fathau gwahanol o farmor y tu mewn iddi.

Ar ôl tua 500m ewch drwy bâr o giatiau. Ar ôl 100m arall trowch i'r dde ac i lawr y grisiau i'r giât ac i'r bont. Croeswch y gamfa i'r lôn.

3a. I fynd yn ôl i Llanelwy yn syth, trowch i'r dde ar hyd y lôn.

3b. I ddewis cylch byr, ewch ar y lôn fferm sydd gyferbyn ag arni'r arwydd 'No through road'. Yn y buarth, trowch i'r dde i'r gamfa. Croeswch y gamfa a dilyn y gwrych. Ar ôl 100m ewch tua'r chwith ac i'r gamfa. Ymlaen yn syth dros ddau gae ac yna tueddi i'r dde at y gamfa. Parhau o gwmpas y cae at gamfa arall ac i'r lôn a'r prif lwybr.



St Asaph

4. Dilynwch y lôn yn ôl tua Llanelwy. Mae golygfeydd da o Fryniau Clwyd o'ch blaen ac i'r dde.

Parhau ar y lôn a heibio Fferm Pen-y Bryn ar y chwith. Ar y groesfan dros yr A55 peidiwch â chroesi'r bont ond cymerwch y gamfa i'r dde a dilyn y llwybr at y grisiau ac i lawr at yr afon. Trowch i'r chwith gan fynd o dan yr A55 a dilyn yr afon yn ôl i Llanelwy a'r man cychwyn.

The Walk

1. From the public car park next to the Bowling Green take the tarmac path, keeping the play area on the left. After 100m bear left and head towards the large footbridge over the River Elwy.
2. After crossing the bridge turn right along the riverside. Pass under the A55 and continue straight on, leaving the tarmac path to continue along the river to a gate onto a lane. Cross the lane and another gate then continue along the riverbank. After approximately 400m go through another gate and continue to follow the raised bank along the river.

Look for the bright spire of St Margaret's Church, Bodelwyddan to the left. Built from limestone the whiteness of the church makes it stand out across the Vale and makes it a landmark for miles

around. It is better known as the Marble Church as the interior is dressed with 13 different types of marble.

After approx 500m go through a pair of gates. After a further 100m turn right down a set of steps to a gate and a footbridge. Cross the footbridge to a stile onto a lane.

3a. To continue directly back to St. Asaph turn right along the lane

3b. For an optional short loop take the farm track opposite, signed 'No through road'. At the farmyard turn right to a stile. Cross the stile and follow the hedge. After 100m bear left to a stile. Continue straight across two fields - and bear right to a stile. Continue round the edge of the field to a stile to rejoin the lane and main route.

4. Follow the lane back towards St Asaph, with good views of the Clwydian Range ahead and to the right.

Continue on the lane past Pen y Bryn Farm on the left. At the A55 road crossing do not cross the bridge but rather take the stile to the right and follow the path to a set of steps down to the river. Turn left, passing under the A55 and follow the river back to St Asaph and your starting point.

Cadeirlan Ieaf Cymru a Lloegr yw hon a godwyd yn y 13edd ganrif. Mae iddi hanes cythryblus oherwydd ei lleoliad ar y llinell brwydrau rhwng y goresgynwyr o Saeson a'r Cymry. Llosgwyd ddwywaith gan Edward 1 yn 1282 a gan Owain Glyndŵr yn 1402, yna cafodd ei difrodi gan filwyr Cromwell yn ystod rhyfel Cartref Lloegr.


Y tu allan, saif Cofeb y Cyfieithwyr a godwyd yn 1888 i ddathlu trichanmlwyddiant cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Gwelir cerfluniau'r rhai oedd yn ymwneud â'r cyfieithu. Efallai mai'r un enwocaf oedd yr Esgob William Morgan y bu i'w gyfieithiad achub yr iaith Gymraeg am i'r iaith ddod yn sail yr iaith safonol ysgrifenedig. Yn ddiweddarach bu'n Esgob Llanelwy ac mae copi o'i Feibl gwreiddiol i'w weld yn y Gadeirlan.

The 13th century cathedral is the smallest in England and Wales. It has had a turbulent history due to its location in the line of battle between the English invaders and the Welsh, burned twice by Edward 1 in 1282 and Owain Glyndwr in 1402, then later damaged again by Cromwell's troops in the Civil War!

Outside stands the Translators' Memorial, erected in 1888 to celebrate the tricentenary of the publication of the Welsh Bible. The statues are of the scholars involved in the translation. Perhaps best known is Bishop Morgan whose translation helped to preserve the Welsh language because it became a standard for written Welsh throughout the country. Later, he became Bishop of St Asaph. A copy of his original Bible can be seen in the Cathedral.

Siop Goffi Masnach Deg Jacob's Ladder, ar ben y dref wrth y Gadeirlan. Ar agor ar gyfer diodydd, teisennau cartref a chinio o ddydd Llun tan Sadwrn 9am-5pm. Ffôn: 01745 582577

Jacob's Ladder Fairtrade Coffee Shop, at the top of the town near the cathedral, is open for drinks, home-made cakes and lunches from Mon-Sat 9am-5pm. Tel: 01745 582577



Cofeb y Cyfieithwyr
The Translators' Memorial